**HYSBYSIAD YN CADARNHAU GORCHYMYN**
**(AC EITHRIO GORCHYMYN DILEU CAFFAEL)**

**DEDDF PRIFFYRDD 1980 ADRAN 119**
**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR**

**(DARGYFEIRIO LLWYBR TROED 23 MERTHYR MAWR)**
**GORCHYMYN GWYRO LLWYBR CYHOEDDUS RHIF 2 2025**

Ar 17/06/2025 cadarnhaodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr y gorchymyn uchod a wnaed o dan adran 119 o Ddeddf Priffyrdd 1980. Effaith y Gorchymyn fel y'i cadarnhawyd fydd gwyro'r rhan honno o Lwybr Troed 23 Merthyr Mawr sy'n cychwyn wrth Bwynt A (Cyfeirnod Grid SS 8718 7718) 23 metr i'r de o'r fynedfa i Faes Parcio Heol Merthyr ac yn mynd ymlaen i gyfeiriad de-ddwyreiniol yn gyffredinol am oddeutu 270 metr ac wedyn yn mynd ymlaen i gyfeiriad de-orllewinol yn gyffredinol am 781 metr at Bwynt B (Cyfeirnod Grid SS 8684 7639), at adran newydd o lwybr troed sy'n cychwyn wrth Bwynt A (Cyfeirnod Grid SS 8718 7718) ar Lwybr Troed 23, oddeutu 23 metr i'r de o'r fynedfa i Faes Parcio Heol Merthyr ac sy'n mynd ymlaen i gyfeiriad de-ddwyreiniol yn gyffredinol am oddeutu 19 metr at Bwynt C (Cyfeirnod Grid SS 8719 7716), ac yna'n mynd ymlaen i gyfeiriad y de yn gyffredinol am 31 metr at Bwynt D (Cyfeirnod Grid SS 8720 7713), wedyn yn mynd ymlaen i gyfeiriad de-ddwyreiniol yn gyffredinol am tua 63 metr at Bwynt E (Cyfeirnod Grid. SS 8724 7709), yna'n mynd ymlaen i gyfeiriad y de yn gyffredinol am 90 metr at Bwynt F (Cyfeirnod Grid SS 8725 7700), yna'n mynd ymlaen i gyfeiriad de-ddwyreiniol yn gyffredinol am 74 metr at Bwynt G (Cyfeirnod Grid 8729 7694), wedyn yn mynd ymlaen i gyfeiriad de-orllewinol yn gyffredinol am 175 metr at Bwynt H (Cyfeirnod Grid SS 8718 7680), ac yna'n mynd ymlaen i gyfeiriad y de yn gyffredinol am 82 metr at Bwynt I (Cyfeirnod Grid. SS 8715 7673), ac yna'n mynd ymlaen i gyfeiriad de-orllewinol yn gyffredinol am 170 metr at Bwynt J (Cyfeirnod Grid SS 8700 7665), yna'n parhau n y cyfeiriad de-orllewinol yn gyffredinol am 188 metr at Bwynt K (Cyfeirnod Grid SS 8691 7649), yna'n parhau yn y cyfeiriad de-orllewinol yn gyffredinol am 34 metr at Bwynt L (Cyfeirnod Grid. SS 8689 7647), ac yna'n parhau yn y cyfeiriad de-orllewinol yn gyffredinol am 16 metr at Bwynt M (Cyfeirnod Grid SS 8688 7646), yna'n mynd ymlaen ar draws y bont droed am 14 metr at Bwynt N (Cyfeirnod Grid SS 8686 7646), yna'n mynd ymlaen i gyfeiriad de-orllewinol yn gyffredinol am 10 metr at Bwynt O (Cyfeirnod Grid SS 8686 7645), wedyn yn mynd ymlaen i gyfeiriad y de yn gyffredinol am 71 metr i ailymuno â Llwybr Troed 23 wrth Bwynt B (Cyfeirnod Grid SS 8684 7639), fel y dangosir ar fap y gorchymyn.

Mae copi o'r gorchymyn wedi ei gadarnhau a map y gorchymyn wedi cael eu gosod a gellir eu gweld yn rhad ac am ddim yn y Dderbynfa Ddinesig yn y cyfeiriad a nodir isod rhwng 8.30 a.m. a 5 p.m. o ddydd Llun i ddydd Iau a rhwng 8.30 a.m. a 4.30 p.m. ar ddydd Gwener. Gellir cael copïau o'r Gorchymyn a gadarnhawyd a'r map yno yn rhad ac am ddim neu fel arall gellir gweld copïau ar-lein yn:https://www.penybontarogwr.gov.uk/cyngor/hysbysiadau-cyfreithiol-a-gorchmynion/.

Daw y gorchymyn i rym o 16/07/2025 ond os bydd unrhyw berson a dramgwyddir gan y Gorchymyn yn dymuno cwestiynu ei ddilysrwydd, neu ddilysrwydd unrhyw

ddarpariaeth a gynhwysir ynddo, ar y sail nad yw o fewn pwerau Deddf Priffyrdd 1980, fel y'i diwygiwyd, neu ar y sail na chydymffurfiwyd ag unrhyw un o ofynion y Ddeddf, fel y'i diwygiwyd, neu unrhyw reoliad a wnaed o dan y Ddeddf, mewn perthynas â'r Gorchymyn, caiff ef neu hi, o dan baragraff 2, o Atodlen 2 i'r Ddeddf fel y'i cymhwysir gan baragraff 5 o Atodlen 6 i'r Ddeddf, o fewn 6 wythnos i 26/06/2025 wneud cais i'r Uchel Lys.

Os bydd arnoch angen yr hysbysiad a'r gorchymyn mewn fformat arall, er enghraifft, print bras, sain, braille neu ffacs, cysylltwch â'r Adran Gyfreithiol yn y cyfeiriad isod neu drwy'r Ganolfan Gwasanaethau Cwsmeriaid: 01656 643643.

**DYDDIEDIG:** 26/06/2025

K Watson, Prif Swyddog, Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio, AD a Pholisi Corfforaethol – Cyfarwyddiaeth y Prif Weithredwr, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr CF31 4WB.
K Watson, Chief Officer Legal and Regulatory Services, Human Resources and Corporate Policy – Chief Executive's Directorate, Bridgend County Borough Council, Civic Offices, Angel Street, Bridgend CF31 4WB.